CYHOEDDIAD

# Cylch gwaith blynyddol Estyn: 2022 i 2023

Yr adolygiadau a'r cyngor sydd eu hangen arnom gan Estyn.

Cyhoeddwyd gyntaf: 22 Mawrth 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 22 Mawrth 2022

## Y cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2022 i 2023

### 1a) Adroddiadau manwl a, phan fo'n briodol, adnoddau eraill sy'n defnyddio tystiolaeth a gesglir o archwiliadau thematig

Mae'r adolygiadau thematig sydd i'w cynnwys yng nghylch gwaith Estyn ar gyfer 2022 i 2023 wedi'u rhestru yn y tabl isod.

Mae'r rhestr yn cynnwys 7 eitem: 6 adolygiad safonol ac 1 adolygiad byr.

Mae'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn adlewyrchu cylch gwaith strategol sydd â

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

phwyslais ar y diwygiadau presennol ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, a diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, ac mae'n cynnwys eitem sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r Gymraeg a ffocws ar gefnogi dysgwyr agored i niwed.

| | Teitl | Diben | Hyd |
|---|---|---|---|
| 1. | Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg mewn ysgolion | Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y trefniadau a'r broses ar gyfer gweithredu'r gofynion a amlinellir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol, a gwybodaeth a gasglwyd yn 2021 i 2022 drwy alwadau ac ymweliadau ymgysylltu. | Adolygiad safonol |
| 2. | Datblygu medrau darllen | Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau darllen, gan gynnwys medrau darllen ar lefel uwch, ar gyfer pobl ifanc 11 i 14 oed a'r pontio rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7.<br><br>Byddai hwn yn adolygiad dros ddwy flynedd, gyda'r ffocws yn 2022 i 2023 ar fedrau darllen yn Saesneg. Yn 2023 i 2024, byddai'r ffocws ar ddatblygu medrau darllen Cymraeg ar gyfer y grŵp oedran hwn. | Blwyddyn 1 o 2<br><br>Adolygiad safonol |
| 3. | Datblygu'r Gymraeg mewn addysg gychwynnol i athrawon | Gohiriwyd yr adolygiad hwn o Lythyr Cylch Gwaith 2020 i 2021, ar ôl diwygio gweithgarwch thematig yn sgil y pandemig. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ba mor dda mae sefydliadau addysg gychwynnol i athrawon yn cefnogi athrawon sy'n fyfyrwyr i wella eu | Adolygiad safonol |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Teitl | Diben | Hyd |
|---|---|---|
| | medrau Cymraeg, gan gynnwys addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | |
| 4. Cefnogi dysgwyr sy’n cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol | Bydd yr adolygiad hwn yn adeiladu ar adolygiadau thematig eraill o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac yn rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn argymhellion mewn adroddiad blaenorol. Byddai’r adroddiad yn ystyried yr hyn sy’n gweithio’n dda o ran cefnogi dysgwyr i ddychwelyd i addysg brif ffrwd. | Adolygiad safonol |
| 5. Aflonyddu rhywiol rhwng cymheiriaid mewn colegau Addysg Bellach | Bydd yr adolygiad hwn yn dilyn yr adolygiad y gwnaed cais amdano yn 2021 i 2022 o’r diwylliant a’r prosesau mewn ysgolion uwchradd annibynnol a rhai a gynhelir er mwyn diogelu a chefnogi pobl ifanc, drwy ganolbwyntio ar y diwylliant a’r prosesau mewn colegau addysg bellach. | Adolygiad safonol |
| 6. Darparu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaethau | Gohiriwyd yr adolygiad hwn o Lythyr Cylch Gwaith 2019 i 2020, ar ôl diwygio gweithgarwch thematig yn sgil y pandemig. Bydd yn canolbwyntio’n benodol ar arferion da wrth ymgorffori cymwysterau sgiliau hanfodol i’r ddarpariaeth ddysgu. Byddai hyn yn adeiladu ar ganfyddiadau mewn arolygiadau blaenorol o ran diffygion yn y gwaith o gynllunio a darparu cymwysterau sgiliau hanfodol mewn rhaglenni dysgu galwedigaethol, ynghyd â deilliannau adolygiad Cymwysterau Cymru. | Adolygiad safonol |
| 7. Llywodraethu: Arferion effeithiol | Mae herio tîm arwain yr ysgol yn faes lle mae angen cefnogaeth ar nifer o gyrff llywodraethu – byddai’r | Adolygiad byr |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Teitl | Diben | Hyd |
|---|---|---|
| gan gynnwys gweithredu fel ffrindiau beirniadol (gan gynnwys herio ar lefelau amrywiol), effaith hyfforddi llywodraethwyr | adroddiad hwn yn asesu effeithiolrwydd cyrff llywodraethu ac yn amlygu pa gymorth a hyfforddiant sydd ei angen i uwchsgilio llywodraethwyr i'w paratoi ar gyfer y trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd a'r diwygiadau cwricwlwm. | |

## 1b) Parhau i roi cyngor, adroddiadau manwl a, phan fo'n briodol, adnoddau eraill sy'n defnyddio tystiolaeth a gesglir o arolygiadau, galwadau ac ymweliadau ymgysylltu a gweithgarwch arall

Mae'r pynciau a ganlyn yn flaenoriaethau i Estyn ar gyfer darparu cyngor i Lywodraeth Cymru drwy ymweliadau ymgysylltu rheolaidd a gweithgarwch arall gydag ysgolion a darparwyr eraill.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | Teitl | Diben |
|---|---|---|
| 1. | Gweithredu rhaglenni newydd Twf Swyddi Cymru + | Bydd ymweliadau ymgysylltu a gweithgarwch arall i ddarparwyr sy'n darparu'r rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar sut mae'r rhaglenni yn mynd rhagddynt yn ystod eu blwyddyn gyntaf, cyn ystyried adolygiad neu arolygiad pellach.<br><br>Bydd adroddiad cenedlaethol yn amlinellu llwyddiant a heriau'r rhaglenni. |
| 2. | Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru – adeiladu ar gynnydd o ran dylunio a chynllunio'r cwricwlwm | Bydd ymweliadau ymgysylltu a gweithgarwch arall yn parhau i adolygu sut mae ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau nas cynhelir yn paratoi ar gyfer addysgu'r Cwricwlwm i Gymru gyntaf ac yn cynnwys dilyniant, gan gynnwys ymgysylltu a dilyniant dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig economaidd-gymdeithasol, yn eu gwaith dylunio a chynllunio. Byddai diweddariadau ac adroddiadau rheolaidd yn canolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd – beth sy'n gweithio'n dda a pham, pa beryglon i'w hosgoi a chameos o arferion diddorol, yn archwilio'r egwyddorion sy'n sail i arferion effeithiol. |
| 3. | Cymorth gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar gyfer gwella'r ysgol | Bydd ymweliadau ymgysylltu a gweithgarwch arall yn canolbwyntio ar ddarparu adroddiad diweddariad ar y cymorth i wella ysgolion gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, gan gynnwys y trefniadau sy'n newid yn y De-orllewin a'r Canolbarth. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Yn ystod 2022 i 2023 bydd Estyn yn parhau i gasglu gwybodaeth o alwadau ac ymweliadau ymgysylltu i gefnogi cynllun adfer dysgu Llywodraeth Cymru yn sgil pandemig COVID-19 ar gyfer y sector addysg a'r sector hyfforddiant. Bydd hyn yn arwain at adroddiadau rheolaidd, gan gynnwys cameos o arferion diddorol.

Yn benodol, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn ddarparu cyngor ar draws y sectorau sydd o fewn ei gylch gwaith mewn perthynas â'r canlynol:

- ymgysylltu â dysgwyr, gan gynnwys strategaethau effeithiol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran
- darparu cwricwlwm eang a chytbwys, a gefnogir gan asesiadau priodol, sy'n diwallu anghenion pob dysgwr
- cymorth i ddysgwyr, rhieni a gweithwyr proffesiynol, yn enwedig mewn perthynas â llesiant emosiynol
- tegwch o ran dysgu a chefnogaeth mewn addysg, gan gyfeirio at egwyddorion 'Safonau a Dyheadau Uchel: strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad'
- cymorth wrth bontio i addysg gynradd ac uwchradd, ac i addysg a hyfforddiant ôl-16
- amrywiaeth
- cynllunio gwelliannau ac arweinyddiaeth
- y system ar gyfer dyfarnu cymwysterau presennol a datblygu cymwysterau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Yn ogystal â diweddariadau tymhorol, gellir rhoi'r cyngor hwn hefyd drwy gyfrannu at weithgorau, y Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol, cyngor ysgrifenedig neu ganllawiau neu adroddiadau a gyhoeddir.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 1c) Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gefnogi ysgolion sy'n destun pryder

Bydd Estyn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i dreialu dulliau o gefnogi ysgolion uwchradd sy'n destun pryder.

## 1d) Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith o ddiwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

Bydd Estyn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith o ddiwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a pharatoadau yn dilyn deddfwriaeth i greu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

## 1e) Cymorth ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r adolygiad thematig o addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn y sectorau ôl-orfodol, bydd Estyn yn rhoi cymorth i grŵp llywio datblygu gweithlu Ôl-16 Llywodraeth Cymru ac yn cynnal dadansoddiad pellach o addysg gychwynnol i athrawon ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

## 1f) Datblygu rhaglen arolygu gwaith ieuenctid

Gan adeiladu ar argymhelliad adroddiad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, ac ymateb y Gweinidog i'r argymhelliad hwnnw, bydd Estyn yn datblygu rhaglen

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

arolygu lleoliadau/darpariaeth gwaith ieuenctid ar gyfer y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddi ymarferwyr presennol fel arolygwyr cymheiriaid a threialu dulliau o gynnwys pobl ifanc mewn tîm arolygu.

## 1g) Cymorth ar gyfer trefniadau awdurdodau lleol a rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion sy'n ymwneud â thechnoleg addysg (EdTech)

Bydd Estyn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu'r defnydd o gyllid technoleg addysg mewn ymweliadau cyswllt awdurdodau lleol.

## 1h) Meysydd polisi y gallai'r Gyfarwyddiaeth Addysg geisio cyngor neu gymorth yn eu cylch, a hynny drwy gyfrannu at waith gweithgorau

Mae Estyn yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn amrywiaeth o feysydd. Gellir gofyn i Estyn roi cymorth i amryw o wahanol weithgorau, drwy ddod yn rhan ohonynt, drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, neu drwy drafodaethau gydag uwch-swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Addysg a'r Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes.

Ar gyfer 2022 i 2023, rhagwelir y bydd Estyn yn rhan o'r gweithgorau canlynol, ond bydd hyn yn cael ei adolygu yn y dyfodol:

- Fforwm Cymru Gyfan o Ymarferwyr Addysg Sipsiwn-Teithwyr
- Grŵp Technegol a Grŵp Llywio Mesurau Perfformiad Cyson
- Grŵp y Cwricwlwm i Gymru
- Grŵp Asesu y Cwricwlwm i Gymru
- Datblygu grŵp gorchwyl a gorffen y gweithlu Cymraeg a chyfrwng Cymraeg
- Awdurdod Gweithredu Technoleg Addysg

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Grŵp Safoni Technegol
- Bwrdd Prosiect y Blynyddoedd Cynnar
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fframwaith Ansawdd Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar
- Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang
- Grŵp Fframwaith Iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg
- Safonau a Dyheadau Uchel: strategaeth ar gyfer mynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad
- Bwrdd Cynghori ar Recriwtio a Chadw Athrawon
- Grŵp Rhanddeiliaid Gyrfa Gynnar
- Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a’r Bwrdd Gweithredu Gwaith Ieuenctid newydd
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant
- Cyfarfod Cadw mewn Cysylltiad (y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaethau)
- Bwrdd Prosiect Ysgolion sy’n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy’n Ymarferwyr Datblygol
- Gweithgorau Trefniadau Amddiffyn Rhyddid
- Fforwm Awdurdodau Lleol ar Gyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Y Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol
- Grŵp Cydlynu’r Rhwydwaith Cenedlaethol
- Y sector nas cynhelir – adnoddau cefnogi’r cwricwlwm
- Grŵp Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal mewn addysg
- Grŵp Sgiliau Dysgu a Chyflogadwyedd Troseddwyr
- Addysg yng Nghymru: Cyflawni Rhaglen Cenhadaeth ein Cenedl
- Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth Datblygu’r Gweithlu
- Bwrdd Gweithredu a Strategaeth y Gweinidog ar Ddiwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol
- Grŵp Llywio Digidol 2030 Ôl-16

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Grŵp Llywio ac is-grwpiau Datblygu Gweithlu Proffesiynol
- Grŵp Cydweithio a Dysgu Proffesiynol
- Grŵp Darllen a Llafaredd yng Nghymru
- Grŵp Llywio Diogelwch mewn Addysg
- Grŵp Cyflawni Addysg Strategol
- Grŵp Llywio Dysgu Proffesiynol i Gynorthwywyr Addysgu
- Grŵp Cynghori ar Asesu
- Bwrdd Prosiect Asesiadau Personol
- Gweithgor y Portffolio Dysgu
- Cynnig Gofal Plant Cymru: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Y Fforwm Cymwysterau Galwedigaethol
- Grŵp Diogelu Plant a Phobl Ifanc Agored i Niwed
- Fforwm Strategol Cymru ar gyfer Datblygu Gyrfaoedd
- Cynhadledd Cymorth a Gwella Llywodraeth Cymru

## 1i) Meysydd eraill y gallai Llywodraeth Cymru geisio cyngor a chymorth yn eu cylch o ran addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae Estyn hefyd yn cynnig cefnogaeth barhaus yn y meysydd canlynol:

- cynigion yn ymwneud â chau ac ad-drefnu ysgolion
- gwaith monitro rheolaidd mewn perthynas ag ysgolion annibynnol cofrestredig i ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddysgwyr â datganiadau AAA neu gynlluniau datblygu unigol
- arolygu a monitro'n flynyddol holl golegau arbenigol annibynnol Cymru, a darparu arolygydd fel rhan o dîm ar gyfer yr arolygiadau neu'r ymweliadau monitro blynyddol â cholegau arbenigol annibynnol yn Lloegr lle y caiff lleoedd 10 neu ragor o ddysgwyr o Gymru eu cyllido
- cofrestru ysgolion annibynnol, gan gynnwys ceisiadau am newidiadau sylweddol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- y Grant Datblygu Disgyblion
- y Grant Gwella Addysg ar gyfer ysgolion
- datblygu cymwysterau a threfniadau arolygu ar gyfer unrhyw ofynion newydd arfaethedig o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes
- ysgolion sy'n peri pryder
- gwaith dilynol gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol a threfniadau rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion
- gweithio gyda thîm Anrhydeddau Canolog Llywodraeth Cymru i gyfrannu unrhyw wybodaeth berthnasol fel rhan o'i broses ar gyfer dilysu cyfeiriadau anrhydedd ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn darparwyr hyfforddiant ac addysg
- helpu Llywodraeth Cymru gyda'r ymateb i'r Ymholiad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, os oes angen
- gwybodaeth gefndir ar gyfer cyfarfodydd ac ymweliadau Gweinidogion ag ysgolion a darparwyr eraill
- cwestiynau'r Senedd

## 2. Rhagolwg dangosol ar eitemau y bydd hi o bosibl yn ofynnol i Lywodraeth Cymru eu darparu yn 2023 i 2024

Rhagolwg dros dro yn unig yw hwn a'i nod yw helpu Estyn i gynllunio ar gyfer 2023 – 2024. Bydd trafodaethau manwl pellach yn cael eu cynnal rhwng swyddogion polisi Estyn cyn y cytunir ar eitemau.

- datblygu sgiliau darllen yn y Gymraeg (ail flwyddyn yr adolygiad, yn canolbwyntio ar bobl ifanc 11-14 oed, a'r pontio rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7)
- rhaglenni dysgu gwell a mwy cyflym mewn addysg bellach
- gwaith yn ymwneud â 'Safonau a Dyheadau Uchel: strategaeth ar gyfer

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad'

- allgáu
- cefnogaeth ar gyfer dysgwyr agored i niwed mewn lleoliadau nas cynhelir, yn enwedig y rhai ag AAA neu Saesneg fel iaith ychwanegol
- Gyrfa Cymru: canolbwyntio ar gymorth y Warant i Bobl Ifanc
- newidiadau i'r diwrnod ysgol
- cymorth gwella ysgol i ysgolion sy'n peri pryder
- arferion da mewn dysgu ac addysgu Iaith Arwyddion Prydain
- adolygiad arferion da o'r cwricwlwm i fynd i'r afael ag amrywiaeth
- dysgu fel teulu, gan ganolbwyntio ar raglenni rhianta
- darpariaeth dechrau'n deg

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cylch gwaith blynyddol Estyn: 2022 i 2023** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2022-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.